| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **1af o Fawrth 2011** |
| **TEITL** | **Barcud Derwen Cyf** |
| **PWRPAS** | **Adrodd yn ôl i Aelodau'r Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Nodi a derbyn y wybodaeth** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Gwasanaeth Economi a Chymuned** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Dewi Lewis** |

**1. CEFNDIR**

1.1. Yn ystod ei gyfarfod ar 15fed o Orffennaf 2010, penderfynodd y Cyngor i gefnogi Cynnig o Rybudd i Gyngor Gwynedd ysgrifennu at gwmni Grant Thornton, Gweinyddwyr Cwmni Barcud Derwen, a gofyn am gyfarfod o gredydwyr y cwmni yng Nghaernarfon.

1.2. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor, anfonwyd gohebiaeth dyddiedig 22ain o Orffennaf 2010 i'r Gweinyddwyr yn gofyn am gyfarfod o'r fath gael ei gynnal yng Nghaernarfon.

**2. DIWEDDARIAD**

2.1. Yn unol â gweithdrefnau arferol, cafodd adroddiad yn amlinellu cynigion y Gweinyddwyr ar gyfer gwireddu amcanion y broses weinyddu ei baratoi yn Awst 2010.

2.2. Ni chafodd cyfarfod credydwyr ei gynnal ar yr adeg yma oherwydd, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Methdaliad 1986, ym marn y Gweinyddwyr nid oedd eiddo digonol er mwyn galluogi rhaniad gael ei gynnig i gredydwyr ansicredig. Fodd bynnag, cafodd adroddiad y Gweinyddwyr ei yrru i'r holl gredydwyr, oedd wedyn gyda'r hawl, o fewn cyfnod o 8 diwrnod gwaith, i ofyn am gyfarfod credydwyr, yn amodol fod gwerth dyledion y cwmnïau yn gofyn am gyfarfod yn fwy na 10% o werth cyfanswm dyled y cwmni.

2.3. Yn dilyn dosbarthiad yr adroddiad, ac yn dilyn y cyfnod ymgynghori cysylltiedig, mae'n ymddangos mai nifer cyfyng o geisiadau a dderbyniodd y Gweinyddwyr gan gredydwyr i gynnal cyfarfod. Yn wir, roedd gwerth y nifer cyfyng yma o geisiadau yn is na'r trothwy o 10% a fyddai wedi arwain i'r gweinyddwyr gynnal cyfarfod ffurfiol o gredydwyr.

2.4. Felly, yn dilyn yr ymgynghoriad gyda'r credydwyr fe gymeradwywyd adroddiad y Gweinyddwyr, ac unol â'r broses gyfreithiol, ni chafodd cyfarfod ffurfiol credydwyr ei alw.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Nodi cynnwys yr adroddiad.